| ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU | LEGISLATION COMMITTEE REPORT |
| --- | --- |

## Rheoliadau Deddf Priffyrdd 1980 (Gorchmynion Gatio) (Cymru) 2007

Mae'r Rheoliadau hyn yn gosod gweithdrefnau sydd i'w dilyn gan Gynghorau pan yn gwneud, yn amrywio neu yn dirymu gorchmynion gatio.

### Rheol Sefydlog 11.7

Mae'r pwyntiau canlynol wedi'u dynodi ar gyfer adrodd o dan Reol Sefydlog 11.7

Yn rheoliad 5 dylai'r cyfeiriad at reoliad 3(v) fod at reoliad 3(a)(v).

Yn rheoliad 11 dylai'r cyfeiriad at reoliad 9(iv) fod at reoliad 9(a)(iv).

Mae'r croes-gyfeiriad yn rheoliad 15 at reoliad 14(3) yn anghywir (nid oes paragraff (3) o gwbl yn rheoliad 14). Y cyfeiriad cywir yw at reoliad 14(2).

Yn nhestun Cymraeg rheoliad 15(g) mae'r croes-gyfeiriad at baragraff (i). mae hwn yn gyfieithiad uniongyrchol o'r testun Saesneg; y croes-gyfeiriad cywir i'w osod i mewn yn y testun Cymraeg yw at baragraff (ff).

Yn rheoliad 16(3) dylai'r croes-gyfeiriad at reoliad 14(3)(a) fod at reoliad 15(i) yn y testun Saesneg a 15(ff) yn y testun Cymraeg.

Mae’r cyfan o’r pwyntiau uchod yn codi dan Reol Sefydlog 11.7(v) ac maent yn briodol i’w cywiro trwy Femorandwm Cywiriadau.

## Sylwadau

Mae mân gamgymeriadau teipio sy’n addas i’w cywiro wrth gyhoeddi wedi’u nodi wrth y cyfreithiwr sy’n drafftio.

## David Melding AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

## 30 Ionawr 2007